



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Iwan Hywel
Mentrau Iaith Cymru
Y Sgwâr
Llanrwst
Conwy
LL26 0LG

19 Mai 2017

Annwyl Iwan,

Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â Grant Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg GHHDG/17-18/05.

1. Dyfarnu Cyllid

- (a) Mae'n bleser eich hysbysu bod eich Cais wedi bod yn llwyddiannus, a bod cyllid o hyd at £110,000.00 (cant a deg o filoedd) ("y Cyllid") wedi ei ddyfarnu ichi ar gyfer y Dibenion (fel y'u diffinnir yn Amod 4(a)).
- (b) Mae'r Cyllid yn ymwneud â'r cyfnod o 1/4/2017 i 31/3/2018 a rhaid ei hawlio'n llawn 31/3/2018, fel arall ni fydd unrhyw ran o'r Cyllid sydd heb ei hawlio ar gael i chi ar ôl y dyddiad a nodwyd.
- (c) Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch dyfarnu'r Cyllid hwn neu'r Amodau, cysylltwch â'r Swyddog yn Llywodraeth Cymru a fydd yn barod iawn i'ch helpu.

2. Awdurdod Statudol (a Chymorth Gwladwriaethol]

- (a) Gwneir y dyfarniad Cyllid hwn ar yr Amodau ac yn ddarostyngedig iddynt, ac o dan awdurdod Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru, sy'n gweithredu yn unol ag adrannau 70 a 71(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- (b) Rhaid ichi gydymffurfio â Rheolau Cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd. Yn Atodlen 5 rhoddir manylion pellach am y Rheolau Cymorth Gwladwriaethol penodol sy'n gymwys i'r

Dibenion, a rhifau adnabod unrhyw gymeradwyaethau Cymorth Gwladwriaethol perthnasol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y Dibenion yn cael eu hateb yn unol â'r meini prawf Cymorth Gwladwriaethol y dyfarnwyd y Cyllid ar eu sail.

3. Dehongli'r Amodau hyn

Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Amodau hyn at:

'chi', **'eich'** yn gyfeiriad at Mentrau Iaith Cymru, 9a y Stryd Fawr, Pontypridd CF37 1QJ

'ni' neu **'ein'** yn cyfeirio at Weinidogion Cymru;

'Cais' yn cyfeirio at eich cais chi i Gronfa Grantiau Hybu a Hwyluso Defnydd Y Gymraeg 2016-2019 dyddiedig 28/10/2015.

'Swyddog Llywodraeth Cymru' yn cyfeirio at

Siwan Gwyndaf
Uwch Swyddog Polisi Cymunedol, Adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
SY23 3UR

Ffôn: 03000 622428
E-bost: siwan.gwyndaf@cymru.gsi.gov.uk

neu unrhyw swyddog arall o Lywodraeth Cymru y'ch hysbysir ohono gennym ni.

'Rheolwr Prosiect' yn cyfeirio at

Iwan Hywel
Mentrau Iaith Cymru
Y Sgwâr
Llanrwst
Conwy
LL26 0LG

Ffôn: 01492 643 401
E-bost: iwanhywel@mentrauaith.cymru

'Amodau' yn cyfeirio at y telerau ac amodau a bennir yn y llythyr hwn;

'Atodlen' yn cyfeirio at yr atodlenni a atodir i'r llythyr hwn;

‘Proffil Taliadau’ yn cyfeirio at y proffil taliadau a nodir yn Atodlen 4;

‘Costau a dynnir’ yn cyfeirio at gost y nwyddau a’r gwasanaethau yr ydych wedi’u cael ni waeth a ydych wedi talu amdanynt erbyn dyddiad eich hawliad.

‘Digwyddiad Hysbysadwy’ yn cyfeirio at unrhyw ddigwyddiad a restrwyd yn Atodlen 3;

‘Rheolau Cymorth Gwladwriaethol’ yn cyfeirio at y rheolau a bennir yn Erthyglau 107 i 109 o’r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (neu unrhyw Erthyglau sy’n olynu Erthyglau 107 i 109), mewn is-ddeddfwriaeth megis fframweithiau, canllawiau ac esemptiadau bloc a baratoir gan y Comisiwn Ewropeaidd ac sy’n deillio o Erthyglau 107 i 109, cyfraith achosion y Llysoedd Ewropeaidd a phenderfyniadau’r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chymhwyso Erthyglau 107 i 109;

unrhyw ddeddfwriaeth yn cynnwys yr holl ddiwygiadau ac amnewidiadau ac ailddeddfiadau o’r cyfryw ddeddfwriaeth, sydd mewn grym o bryd i’w gilydd;

4. Yr hyn y mae’n rhaid ichi ddefnyddio’r Cyllid ar ei gyfer

- (a) Rhaid i chi ddefnyddio’r Cyllid at y dibenion hynny, yn unig, a bennir yn Atodlen 1 (“y **Dibenion**”).
- (b) Rhaid ichi gyflawni’r targedau a’r canlyniadau a bennir yn Atodlen 2 (“y **Targedau**”).
- (c) Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i’r Dibenion neu’r Targedau, bydd angen i chi gael ein caniatâd ysgrifenedig cyn gweithredu’r newidiadau hyn. Nodwch nad oes rhaid i ni roi caniatâd, ond byddwn yn ystyried pob cais ysgrifenedig rhesymol.
- (d) Ni chaniateir defnyddio unrhyw ran o’r Cyllid ar gyfer: (1) dibenion gwleidyddiaeth plaid; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu cyfarpar cyfalaf (ac eithrio fel a bennir yn y Dibenion); (7) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â’r llythyr hwn; (8) costau yr eir iddynt neu a delir gennych wrth gyflawni’r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1 (b); neu (9) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (10) unrhyw fath o weithgaredd a allai ddwyn anfri arnom yn ein barn ni.

5. Rhag-amodau'r Cyllid

- (a) Ni fyddwn yn talu unrhyw ran o'r Cyllid i chi nes byddwch chi wedi darparu'r wybodaeth a'r dogfennau canlynol i ni:
 - (i) tystiolaeth ysgrifenedig bod y sawl sydd wedi arwyddo'r llythyr hwn ar eich rhan â'r awdurdod i wneud hynny;
 - (ii) tystiolaeth ddogfennol eich bod wedi trefnu bod yr holl staff ac adnoddau eraill y rhoddir manylion amdanynt yn y Cais yn eu lle fel sy'n ofynnol er mwyn cychwyn y Dibenion;
- (b) Pan fydd angen i chi ddarparu gwybodaeth a dogfennau i ni fel tystiolaeth eich bod wedi bodloni rhag-amod, neu amod benodol neu i ategu cais, rhaid i'r wybodaeth a'r dogfennau fod yn dderbyniol i ni ym mhob ffordd. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw wybodaeth a dogfennau nad ydynt yn dderbyniol i ni am unrhyw reswm.

6. Sut i hawlio'r Cyllid

- (a) Bydd y Cyllid yn cael ei dalu i chi bob chwarter ymlaen llaw yn seiliedig ar eich gwariant a amcangyfrifir yn unol â'r manylion yn y Proffil Taliadau.
- (b) Rhaid i chi hawlio'r Cyllid yn unol â'r dyddiadau a nodwyd yn y Proffil Taliadau. Rhaid i chi hawlio'r Cyllid yn brydlon. Yr ydym yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl unrhyw ran o'r Cyllid na fyddwch wedi ei hawlio'n brydlon.
- (c) Rhaid ichi gyflwyno eich hawliadau ar gyfer talu'r Cyllid i Swyddog Llywodraeth Cymru.
- (d) Rhaid i chi ddefnyddio'n ffurflen gyfredol (sydd ar gael gan Swyddog Llywodraeth Cymru) ac atodi yr wybodaeth a'r dogfennau canlynol i bob hawliad ynghyd â'r wybodaeth a'r dogfennau a nodir yn y Proffil Taliadau:
 - i) manylion a thystiolaeth eich gwariant gwirioneddol ar gyfer y chwarter blaenorol; a
 - ii) manylion eich gwariant a amcangyfrifir ar gyfer y chwarter nesaf a
 - iii) tystiolaeth o unrhyw arian cyfatebol â dderbynnir yn ystod y chwarter diwethaf; a
 - iv) adroddiad cynnydd ar gyfer y chwarter diwethaf yn adrodd ar gynnydd targedau, dangosyddion perfformiad a chanlyniadau er budd y Gymraeg; a
 - v) cadarnhad eich bod yn gweithredu ym mhob ffordd yn unol â'ch cyfansoddiad.

- (e) Bydd unrhyw Gyllid nas gwariwyd o'r chwarter blaenorol yn cael ei wrthbwysu yn erbyn y taliad Cyllid nesaf hyd yn oed os yw hynny'n golygu na chewch gyfanswm y Cyllid.
- (f) Byddwn yn anelu at dalu pob hawliad dilys cyn gynted ag y bo modd ac fel arfer o fewn 28 diwrnod.

7. Eich ymrwymadau cyffredinol i ni

Rhaid i chi:

- (a) diogelu'r Cyllid rhag twyll yn gyffredinol ac, yn benodol, twyll ar ran eich rheolwyr, eich cyflogeion a/neu'ch cyflenwyr; a rhaid i chi ein hysbysu ni ar unwaith os bydd gennych reswm i amau bod twyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd. Rhaid i chi hefyd gymryd rhan yn y cyfryw fentrau atal twyll ag a byddwn yn eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd.
- (b) cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheoliadau neu gyfarwydddebau swyddogol cymwys, boed yn deillio o'r gyfraith ddomestig, cyfraith yr UE neu gyfraith ryngwladol;
- (c) trefnu a pharhau i gynnal yswiriant digonol ar gyfer y risgiau a allai godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo neu unrhyw weithgaredd a gaiff eu gwneud wrth gyflawni'r Dibenion. Yr ydym yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch yswiriant;
- (d) cydweithredu'n llawn â Swyddog Llywodraeth Cymru ac unrhyw gyflogeion eraill o Lywodraeth Cymru neu unrhyw ymgynghorydd a benodir gennym ni i fonitro'r modd y defnyddiwch y Cyllid a'ch cydymffurfiaeth â'r Amodau hyn.

8. Datganiadau

Yr ydych yn datgan:

- (a) bod gennych y pŵer i ymgymryd â'r ymrwymadau a bennir yn yr Amodau hyn a'u cyflawni, a'ch bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i awdurdodi ymgymryd â'r ymrwymadau a'u cyflawni o dan yr Amodau hyn;
- (b) nad oes achos o ymglyfreitha na chymrodeddu ar y gweill, yn yr arfaeth, nac wedi ei fygwth hyd y gwyddoch, sy'n cael, neu a allai gael, effaith anffafriol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'r Amodau hyn;

- (c) bod yr wybodaeth a gynhwysir y eich cais yn gyflawn, yn wir ac yn gywir;
- (d) bod datgeliad llawn wedi ei wneud i ni o'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae'n ofynnol eu datgelu er mwyn sicrhau y gallwn gael darlun gwir a chywir o'ch busnes a'ch gweithgarwch (cyfredol ac arfaethedig), neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried darparu cyllid i chi;
- (e) eich bod wedi trafod a chytuno ar y Targedau gyda ni, a'ch bod yn hyderus eu bod yn realistig a chyraeddadwy.

9. Digwyddiadau Hysbysadwy a'u canlyniadau

- (a) Rhaid ichi ein hysbysu ni ar unwaith o unrhyw Ddigwyddiad Hysbysadwy sydd wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd; ond yr ydym hefyd yn cadw'r hawl i'ch hysbysu chi, os credwn fod Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd.
- (b) Byddwn yn ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysadwy gyda chi a chytuno ar ffordd o weithredu i ymateb i'r Digwyddiad Hysbysadwy, ac wrth wneud hynny byddwn yn ystyried difrifoldeb y Digwyddiad Hysbysadwy, ac a ellir ei unioni ai peidio.
- (c) Mae hawl gennym i gymryd unrhyw un o'r camau yn Amod 9(d):
 - (i) os na fyddwn, er gwaethaf ein hymdrechion rhesymol, wedi llwyddo i drafod y Digwyddiad Hysbysadwy gyda chi, neu
 - (ii) os byddwn yn eich hysbysu nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy, neu
 - (iii) os cytunir gyda chi ar gamau gweithredu a chithau wedyn yn peidio â dilyn y camau hynny, neu os na fodlonir unrhyw amod sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, yr amserlen ar gyfer y cyfryw gamau gweithredu), neu
 - (iv) os yw'r ffordd o weithredu yn methu ag unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy mewn modd sydd wrth ein bodd ni.
- (d) Os digwydd unrhyw un o'r amgylchiadau a bennir yn Amod 9(c) gallwn eich hysbysu yn gweithredu fel a ganlyn:
 - (i) tynnu'n ôl y dyfarniad Cyllid; a/neu
 - (ii) ei gwneud yn ofynnol eich bod yn ad-dalu'r cyfan neu ran o'r Cyllid ar unwaith; a/neu
 - (iii) atal dros dro neu'n derfynol bob taliad pellach o'r Cyllid; a/neu

- (iv) gwneud pob taliad pellach o'r Cyllid yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau a bennir gennym ni; a/neu
 - (v) tynnu pob swm sy'n ddyledus i ni o dan yr Amodau hyn o unrhyw gyllid arall rydym wedi ei dalu i chi neu a allai gael ei dalu i chi; ac/neu
 - (vi) arfer yn eich erbyn unrhyw hawliau eraill a allai fod gennym mewn perthynas â'r Cyllid.
- (e) Rhaid i bob ad-daliad Cyllid gael eu gwneud cyn pen 28 diwrnod i ddyddiad ein gorchymyn. Rhaid i chi dalu llog ar unrhyw ad-daliadau hwyr ar gyfradd o 1.5% y flwyddyn uwchlaw Cyfradd Banc Lloegr o bryd i'w gilydd neu'r cyfryw gyfradd sy'n ofynnol gan y Rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Bydd y llog yn cronni fesul diwrnod o'r dyddiad y mae'r ad-daliad yn ddyledus hyd nes yr ad-delir y Cyllid mewn gwirionedd, boed hynny cyn neu ar ôl y dyfarniad. Rhaid i chi dalu'r llog yn ogystal â'r ad-daliad hwyr.

10. Gofynion Monitro

Rhaid i chi:

- (a) darparu i ni'r cyfryw ddogfennau, gwybodaeth ac adroddiadau y gallwn yn rhesymol ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd, er mwyn i ni fonitro eich cydymffurfiaeth â'r Amodau gan gynnwys, yn ddigwyfyngiad:
 - i) Cyfrifon Blynyddol 2017-2018
- (b) cyfarfod â Swyddog Llywodraeth Cymru a pha bynnag rai eraill o'n cynrychiolwyr, y gallwn yn rhesymol ichi eu cyfarfod o bryd i'w gilydd.
- (c) sicrhau bod y Rheolwr Prosiect (neu'r cyfryw berson arall a gytunwyd gennym ni) yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd gyda Swyddog Llywodraeth Cymru.

11. Gofynion Archwilio

- (a) Rhaid i chi:
 - (i) gynnal cofnodion cyfrifyddu eglur sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r Dibenion;
 - (ii) yn ddi-dâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd, ar unrhyw adeg resymol ac ar ôl i chi dderbyn cyfnod rhesymol o rybudd, ymweld â'ch mangre a/neu arolygu unrhyw un neu rai o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o'ch

llyfrau cyfrifon a pha bynnag ddogfennau neu gofnodion eraill a allai, ym marn resymol y swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r modd y defnyddiwch y Cyllid. Nid yw'r ymgymriad hwn yn lleihau dim ar effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd, neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant unrhyw un o'r uchod, ac y mae'r ymgymriad yn ddarostyngedig i'r cyfryw hawliau a phwerau statudol hynny;

- (iii) cadw'r llythyr hwn a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r Cyllid hyd nes i ni roi gwybod i chi yn ysgrifenedig ei bod yn ddiogel eu dinistrio;
- (b) O dan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad eang i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae pŵer ganddo ef a'i swyddogion i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol, sy'n rheoli neu'n dal dogfennau, roi pa bynnag gymorth, gwybodaeth ac esboniadau y gofynnant amdanynt; a'i gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ymddangos ger eu bron i'r cyfryw ddiben. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar unrhyw adeg resymol.

12. Rhwymedigaethau i Drydydd Partion

- (a) Nid oes dim yn yr Amodau hyn sydd yn gosod unrhyw rwymedigaeth arnom ni mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth sy'n ddyledus gennych chi i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, yn ddigfyngiad, cyflogeion a chontractwyr).
- (b) Rhaid i chi ein hindemnio ni rhag unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion cyfreithiol, galwadau am dâl, colledion, costau a threuliau, y bu i ni eu dioddef neu eu hachosi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw fethiant ar eich rhan chi i gyflawni, yn llawn neu'n rhannol, unrhyw rwymedigaeth a allai fod arnoch i drydydd parti.

13. Hawliau Eiddo Deallusol a Chyhoeddusrwydd

- (a) Nid oes dim yn yr Amodau hyn yn trosglwyddo i ni unrhyw hawliau mewn eiddo deallusol a grëir gennych chi o ganlyniad i'r Dibenion.

- (b) Rhaid ichi gydnabod y cymorth a gewch gennym ni yn yr holl gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata a baratoir mewn perthynas â'r Dibenion. Rhaid i'r gymeradwyaeth honno fod ar ffurf a gymeradwyir gennym ni, a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru.
- (c) Rhaid ichi ddarparu copi i Swyddog Llywodraeth Cymru o'r holl ddeunyddiau a restrir yn Amod 13(b), i'w cymeradwyo gennym ni cyn cyhoeddi'r cyfryw ddeunydd, ac ni chaniateir ichi gyhoeddi deunydd o'r fath heb gael ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ni ymlaen llaw. Byddwn yn ceisio ymateb i bob cais ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith.
- (d) Yr ydych yn cytuno bod hawl gennym, o ddyddiad y llythyr hwn hyd at 5 mlynedd o ddyddiad taliad olaf y Cyllid y gallwn gynnwys manylion am eich sefydliad a'ch busnes chi ac am y Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau hyrwyddo ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac yr ydych yn cytuno ymhellach i gydweithredu â cheisiadau rhesymol gennym ni at y diben o baratoi deunyddiau o'r fath

14. Mynediad at Wybodaeth

- (a) Yr ydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("yr FOIA"), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("yr EIR") a Deddf Diogelu Data 1998 ("y DPA").
- (b) Yr ydych yn cydnabod mai ni, yn ôl ein disgrisiwn absoliwt, sy'n gyfrifol am benderfynu naill ai:
 - (i) i ddatgelu unrhyw wybodaeth a gawsom o dan neu mewn cysylltiad â'r Cyllid, i'r graddau y mae'n ofynnol ein bod yn datgelu'r cyfryw wybodaeth i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan yr FOIA neu'r EIR; a/neu
 - (ii) bod unrhyw wybodaeth yn esempt o'r gofynion datgelu o dan yr FOIA neu'r EIR.

15. Prynu Nwyddau a Gwasanaethau

Os penderfynwch brynu unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau i gyflawni'r Dibenion, rhaid eu prynu mewn modd cystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod wedi sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

16. Hysbysu

- (a) Rhaid i bob hysbysiad a roddir o dan yr Amodau hyn fod mewn ysgrifen (nid yw hyn yn cynnwys e-bost, ond gall gynnwys llythyr a atodir i e-bost) a rhaid iddo arddangos yn amlwg y pennawd canlynol:

“Hysbysiad ynghylch Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2017-2018 GHHDG/17-18/05”

- (b) Mae'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt at y diben o gyflwyno hysbysiad o dan yr Amodau hyn fel a ganlyn

Chi: y Rheolwr Prosiect yn y cyfeiriad a bennir yn Amod 3(d).

Ni: y Swyddog Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a bennir yn Amod 3(c).

- (c) Ystyrir bod hysbysiad wedi ei gyflwyno'n briodol fel a ganlyn:-

Post dosbarth cyntaf rhagdaledig: ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad postio.

Â llaw: ar yr adeg y'i hanfonir i'r cyfeiriad, neu'r diwrnod gwaith nesaf os yw'n cyrraedd ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu wyliau cyhoeddus.

Drwy atodiad e-bost: ar yr adeg y'i trawsyrrir, neu'r diwrnod gwaith nesaf os trawsyrrir ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu wyliau cyhoeddus.

17. Cyfle Cyfartal

Rhaid ichi weithredu polisi cyfle cyfartal fel cyflogwr, fel defnyddiwr gwirfoddolwyr, ac fel darparwr gwasanaethau, heb ystyried hil, rhyw/hunaniaeth rywiol, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu unrhyw anabledd.

18. Yr Iaith Gymraeg

Pan fo'r Dibenion yn cynnwys neu'n ymwneud â darpariaeth gwasanaethau neu ddeunydd ysgrifenedig (gan gynnwys arwyddion a gwybodaeth a gyhoeddir ar-lein) yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu

darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg, oni fyddai'n afresymol neu'n anghymesur i wneud hynny.

19. Cynaliadwyedd

Rhaid i'r modd y defnyddiwch y Cyllid (pan fo'n rhesymol ymarferol) fodloni agenda gyfredol Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy a'r amgylchedd.

20. Swyddogaethau Gweinidogion Cymru

Yr ydych yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio, a bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynglŷn â phob swyddogaeth unigol yng ngoleuni'r holl ystyriaethau perthnasol, gan eithrio pob ystyriaeth amherthnasol. Yr ydych yn cytuno na fydd dim sy'n gynwysedig yn yr Amodau hyn neu sydd ymhlyg ynddynt, neu sy'n codi odanynt, neu mewn cysylltiad â hwy, mewn unrhyw fodd yn niweidio, yn llyffetheirio, neu'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu unrhyw rai ohonynt, nac yn rhwymo Gweinidogion Cymru, neu unrhyw rai ohonynt i arfer eu swyddogaethau, neu ymatal rhag eu harfer, mewn unrhyw fodd penodol.

21. Cyffredinol

- (a) Os digwydd i unrhyw un o'r Amodau hyn, ar unrhyw adeg, fynd, neu gael ei ystyried, yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy mewn unrhyw fodd o dan unrhyw gyfraith, nid effeithir ac nid amherir mewn unrhyw fodd ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb a gorfodadwyedd gweddill y darpariaethau.
- (b) Ni fydd methiant neu oedi ar ein rhan ni i arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi o dan yr Amodau hyn yn gweithredu fel hepgoriad o'r cyfryw bŵer, hawl neu rwymedi, nac yn ein rhwystro rhag arfer y cyfryw bŵer, hawl neu rwymedi ymhellach, neu arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi arall. Mae'r pwerau, yr hawliau neu'r rhwymedïau a ddarperir drwy hyn yn rhai cronnus, ac nid ydynt yn eithrio unrhyw bwerau, hawliau neu rwymedïau a ddarperir drwy gyfraith.
- (c) Rhaid i unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i'r Amodau hyn fod yn ysgrifenedig a chael ei lofnodi gennym ni a chennych chi, yn yr un modd â'r llythyr hwn.

- (d) Ni chaniateir ichi aseinio, na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall, eich hawliau, eich buddion, eich rhwymedigaethau neu'ch dyletswyddau o dan yr Amodau hyn.
- (e) Bydd Amodau 7, 9, 11, 13, 14, a 21(e), a'r cyfryw Amodau eraill y mae angen iddynt, drwy oblygiad, barhau y tu hwnt i daliad olaf y Cyllid, yn parhau felly yn eu llawn rym ac effaith.
- (f) I chi yn unig y gwneir y dyfarniad Cyllid ac nid oes gan neb arall hawl i wneud unrhyw hawliad mewn perthynas â'r Cyllid, nac ychwaith i ddibynnu ar unrhyw rai o'r Amodau hyn neu eu gorfodi.
- (g) Llywodraethir a dehonglir yr Amodau hyn yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr fel y'u cymhwysir yng Nghymru, ac y mae'r partion i'r Amodau hyn yn ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

22. Sut i dderbyn y cynnig hwn o Gyllid

- (a) Er mwyn derbyn y cynnig hwn o Gyllid, rhaid i chi lofnodi a dychwelyd copi o'r llythyr hwn i Swyddog Llywodraeth Cymru. Ni fydd dim o'r Cyllid hwn yn cael ei dalu i chi tan y byddwn wedi derbyn eich llythyr wedi'i lofnodi.
- (b) **Rhaid i ni dderbyn eich llythyr wedi'i lofnodi** o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn, neu bydd y cynnig o Gyllid yn mynd yn ddi-rym yn awtomatig. Dylid danfon y llythyr (copi caled neu gopi electroneg) at:
 - carol.davies33@cymru.gsi.gov.uk
 - Carol Davies
Swyddog Grantiau Polisi Cymunedol, Adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Teras Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT

Yr eiddoch yn gywir,



Llofnodwyd gan Bethan Webb
o dan awdurdod Prif Weinidog Cymru

un o Weinidogion Cymru.

ATODLEN 1**Y Dibenion****Costau**

Costau Cymwys	Cyfanswm costau'r Prosiect	Cyfanswm Cyfraniad Llywodraeth Cymru
	£0.00	£0.00
Staffio (teitl y swydd)		
Arweinydd Tîm	£32,949.84	£32,949.84
Swyddog Datblygu	£27,104.22	£27,104.22
Swyddog Datblygu	£27,104.22	£27,104.22
Llysgennad	£2,500.00	£2,500.00
Cyfanswm	£89,658.28	£89,658.28
Costau canolog		
Rhent/ Costau Teithio/ Gweinyddol	£15,500.00	£0.00
Gwasanaethau Cefnogi	£8,000.00	£0.00
Costau prosiect		
Hyfforddiant a chodi ansawdd	£7,500.00	£7,500.00
Marchnata	£6,500.00	£6,500.00
Cynhadledd Prif	£4,000.00	£4,000.00
Swyddogion a Chadeiryddion		
Digwyddiad cenedlaethol i swyddogion a gwirfoddolwyr y Mentrau	£2,341.72	£2,341.72
Prosiectau Amrywiol	£2,060.00	£0.00
Cyfanswm	£22,341.72	£22,341.72
Cyfanswm	£135,500	£110,00

ATODLEN 2

Y Targedau, Dangosyddion Perfformiad a Chanlyniadau a ddymunir

<p>1.0 Codi Ansawdd: Cefnogi'r Mentrau i gyrraedd lefel 1 PQASSO</p>	<p>1.1 Cefnogi 20 o Fentrau i weithio tuag at gyrraedd lefel 1 PQASSO</p> <p>1.2 20 Menter wedi gwneud hunan asesiad erbyn Mawrth 2018</p> <p>1.3 8 Menter yn barod i gael asesiad allanol erbyn Mawrth 2018</p> <p>1.4 Rhoi cefnogaeth ddwys i fentrau unigol godi ansawdd, fel mae'r galw, yn ddibynnol ar drafodaethau gyda'r llywodraeth a'r fenter.</p> <p>1.5 Datblygu polisiau perthnasol a'i rhannu gyda'r rhwydwaith</p> <p>1.6 Cynllunio yn rhagweithiol i gynnig arweiniad i'r rhwydwaith o Fentrau yn y maes polisi mewnol a llywodraethiant</p>
<p>2.0 Cefnogi gwaith y rhwydwaith o Fentrau laith drwy ddarparu cyfleoedd i'r Mentrau rwydweithio a rhannu gwybodaeth, profiadau ac arfer da drwy:-</p>	<p>2.1 Cynnal o leiaf 4 cyfarfod cenedlaethol i Brif Swyddogion y Mentrau laith.</p> <p>2.2 Cynnal o leiaf 1 cyfarfod cenedlaethol i Swyddogion Maes y Mentrau.</p> <p>2.3 Cefnogi rwydweithio rhanbarthol trwy 10 cyfarfod rhanbarthol.</p> <p>2.4 Cynnal o leiaf un digwyddiad cenedlaethol ar gyfer y Mentrau ar gyfer Swyddogion a Gwirfoddolwyr</p> <p>2.5 Cynnal Cynhadledd genedlaethol i Brif Swyddogion a Chadeiryddion y Mentrau</p> <p>2.6 Rhannu gwybodaeth am o leiaf 10 ffynhonnell cyllid. Ymchwilio a rhannu gwybodaeth am arfer da codi arian gan y Mentrau a thu hwnt.</p>
<p>3. Cynrychioli'r Mentrau a chydweithio gyda rhan-ddeiliaid</p>	<p>3.1 Cynrychioli'r Mentrau mewn digwyddiadau, cyfarfodydd a'r fforymau canlynol:-</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector • Dathlu'r Gymraeg • Digwyddiadau perthnasol eraill <p>3.2 Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Mentrau Iaith i ddatblygu rôl y Fforymau Sirol i fod yn gatalydd i wella cydweithio, cynllunio a gweithredu strategol yn lleol er budd y Gymraeg.</p>
<p>4.0 Creu rhaglen hyfforddiant a datblygu proffesiynol ar gyfer y rhwydwaith o Fentrau Iaith</p>	<p>4.1 Cydweithio a chefnogi Prif Swyddogion y Mentrau Iaith i ddatblygu cynlluniau datblygu proffesiynol parhaus iddynt hwy fel prif swyddogion, ac ar gyfer swyddogion eraill y Mentrau.</p> <p>4.2 Rhannu manteision ac arfer dda datblygu proffesiynol gyda'r rhwydwaith.</p> <p>4.3 Cynnal o leiaf 7 digwyddiad hyfforddiant a datblygu proffesiynol i 70 o fuddiolwyr, gan flaenoriaethu'r meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • craidd: adnoddau dynol; datblygu proffesiynol • cefnogaeth / hyfforddiant i Gadeiryddion / Byrddau Rheoli, • gweithio gyda gwirfoddolwyr • Safonau Ansawdd megis gwasanaeth cwsmer, a pherfformiad staff
<p>5.0 Datblygu'r Maes Marchnata a chyfathrebu ymysg y rhwydwaith o Fentrau Iaith</p>	<p>5.1 Cydweithio gyda'r Mentrau Iaith perthnasol er mwyn cynnal presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol ac Eisteddfod yr Urdd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd am werth y Gymraeg a gwaith y rhwydwaith o fentrau iaith yn lleol.</p> <p>5.2 Creu, Trefnu a Hwyluso grŵp</p>

	<p>Marchnata Cenedlaethol newydd i'r Mentrau fydd yn cyfarfod yn chwarterol, gan gynnwys hyfforddiant perthnasol i aelodau'r grŵp.</p> <p>5.3 Parhau i ddatblygu'r fewnwyd a'r wefan ganolog er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfoes a pherthnasol ar gael i gefnogi gwaith swyddogion y Mentrau Iaith.</p> <p>5.4 Cydweithio ar ddatblygu a chynllunio adnoddau pwrcpasol i hyrwyddo gwaith y Mentrau Iaith a'r Gymraeg mewn cydweithrediad ag Adran Farchnata Llywodraeth Cymru.</p> <p>5.6 Cydweithio'n strategol â phartneriaid allweddol yn y maes Marchnata i hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd.</p>
<p>6.0 Datblygu model dyrannu cynulleidfa a datblygu strategaethau penodol a pherthnasol ar gyfer pob cynulleidfa, gan gynnwys mapio gwasanaethau</p>	<p>6.1 Cefnogi'r Mentrau Iaith i adnabod y cynulleidfaoedd gwahanol a chreu cynlluniau o'r gwasanaethau sydd ar gael i'r gwahanol gynulleidfaoedd a rhannu arfer dda</p> <p>6.2 Cydweithio gydag endidau eraill i fapio pwy sydd yn cynnig pa wasanaeth i ba gynulleidfa</p> <p>6.3 Defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu targedau cyffredin i'r Mentrau</p>
<p>7.0 Gweithio'n strategol i ddatblygu rôl y Mentrau Iaith wrth symud ymlaen i weithio at y miliwn o siaradwyr Cymraeg</p>	<p>7.1 Datblygu gweledigaeth y Mentrau-Mentro Mwy</p> <p>7.2 Cyd-weithio gyda phartneriaid o fewn y sector</p>
<p>8.0 Cynlluniau Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg</p>	<p>8.1 Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu'r Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg</p>

ATODLEN 3

Digwyddiadau Hysbysadwy

Rhestrir y Digwyddiadau Hysbysu y cyfeirir atynt yn Amod 9 isod:

1. bod ad-dalu unrhyw ran o'r Cyllid yn ofynnol o dan Gyfraith Ewrop (boed o dan Reolau Cymorth Gwladwriaethol neu fel arall);
2. eich bod yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'r Amodau;
3. eich bod yn methu â chyrraedd unrhyw un neu'r cyfan o'r Targedau;
4. ein bod ni wedi gordalu Cyllid i chi;
5. bod unrhyw ddatganiad a wnaed yn Amod 8 yn anghywir mewn unrhyw fodd, neu o'i ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a fodolai bryd hynny, y byddai'n anghywir;
6. bod unrhyw ddeiseb yn cael ei chyflwyno neu benderfyniad yn cael ei basio gamau'n cael eu cymryd fel arall mewn perthynas â'ch methdaliad neu ddirwyn i ben, neu fod deiseb yn cael ei chyflwyno am orchymyn gweinyddu yn eich erbyn;
7. bod derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol yn cael ei benodi mewn perthynas â chi, neu mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw ran o'ch asedau;
8. bod moratoriwm mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw un o'ch dyledion, neu fod compôwnd neu gytundeb gyda'ch credydwyr, wedi ei gytuno, ei orchymyn neu'i ddatgan;
9. nad ydych yn gallu talu'ch dyledion, neu eich bod yn cyfaddef yn ysgrifenedig nad ydych yn gallu talu eich dyledion;
10. bod unrhyw atafaeliad, gweithrediad, ymglymiad neu broses arall yn effeithio ar unrhyw un o'ch asedau
11. bod archeb statudol yn cael ei rhoi yn eich erbyn;
12. eich bod chi'n rhoi'r gorau, neu'n bygwth rhoi'r gorau, i gynnal y cyfan neu ran sylweddol o'ch busnes;
13. bod newid yn eich cyfansoddiad, eich statws, eich rheolaeth neu'ch perchnogaeth neu fod un o'ch archwilwyr allanol yn ymddiswyddo;
14. bod newid yn eich cyfranddalwyr, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr neu'ch partneriaid;
15. bod unrhyw ddigwyddiad, neu unrhyw amgylchiadau'n codi, sydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu y gallech beidio â chyflawni

neu gydymffurfio ag unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau hyn, neu y gallech fod yn analluog i wneud hynny.

ATODLEN 4
Proffil Taliadau
2017-2018
(Blaen-daliad)

Rhif y Rhandaliad	Swm y Rhandaliad	Dyddiad Cynharaf y gellir ei hawlio	Dyddiad diwethaf y gellir ei hawlio	Dogfennau sy'n gorfod cael eu cynnwys
1	£55,000.00	03/04/2017	14/04/2017	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Cynnydd Chwarter 4 2016-17 • Adroddiad Cyllid Chwarter 4 2016-17
2	£27,500.00	02/10/2017	13/10/2017	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 a Chwarter 2 2017-18 • Adroddiad Cyllid Chwarter 1 a Chwarter 2 2017-18
3	£27,500.00	01/01/2018	12/01/2018	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Cyllid Chwarter 3 2017-18 • Cyfrifon Blynnyddol 2016-17

MAE ANGEN LLOFNOD DAU BERSON

Yr ydym, drwy hyn, yn derbyn dyfarniad Cyllid **GHHDG/17-18/05** a'r Amodau mewn perthynas â'r Cyllid

_____ Llofnod
Llofnodwr awdurdodedig ar ran **Mentrau Iaith Cymru**

_____ Meirion Davies _____ Enw

_____ Aelod o Pwyllgor Rheoli Mentrau Iaith Cymru _____ Teitl Swydd

_____ 24/05/2017 _____ Dyddiad

_____ Llofnod
Llofnodwr awdurdodedig ar ran **Mentrau Iaith Cymru**

_____ Iwan Hywel _____ Enw

_____ Arweinydd Tîm Mentrau Iaith Cymru _____ Teitl Swydd

_____ 24/5/2017 _____ Dyddiad